Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Rhufeiniaid

## Uned 2



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r canllaw hwn | 3 |
| Rhagymadrodd | 4 |
| Pam roedd y Rhufeiniaid eisiau goresgyn Prydain? | 12 |
| Yr ymdrechion cyntaf i orchfygu Prydain | 13 |
| Brwydro yn erbyn y llwythau Celtaidd | 18 |
| Y Milwyr Rhufeinig | 20 |
| A oes heddwch... neu ryfel? | 23 |
| Brwydrau Buddug | 25 |
| Brwydr fythgofiadwy Môn | 30 |
| Stori Segontium | 33 |
| Darganfod rhagor! | 35 |

# Ynglŷn â'r canllaw hwn

Uned 2: Pa effaith gafodd y Rhufeiniaid ar bobl Prydain?

## Thema'r uned

Pa effaith gafodd y Rhufeiniaid ar bobl Prydain?

## Amcanion Dysgu

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar yr effaith a gafodd y Rhufeiniaid ar bobl Prydain. Mae'n annog dysgwyr i ymchwilio i'r rhesymau pam y dewisodd y Rhufeiniaid Gymru fel gwlad addas i'w goresgyn a'i meddiannu, ER GWAETHAF yr heriau oedd yn eu hwynebu o ran tirwedd, gwrthsafiad y bobl leol a'r ffaith ei fod yn lle eithaf ynysig ac ar wahân.

Mae hefyd yn rhoi sylw i gymeriadau hanesyddol dylanwadol ar y ddwy ochr ac yn annog dysgwyr i feddwl sut a pham y cofnodwyd hanes y cyfnod.

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

**Dibenion y Cwricwlwm**
Cymorth i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli a disgrifio'r gorffennol a'r presennol.

**Maes dysgu a phrofiad**
Y Dyniaethau

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig**
Bydd yr uned hon yn ysgogi ymholi a darganfod, wrth i ddysgwyr gael eu herio i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, meddwl yn feirniadol a myfyrio ar dystiolaeth.

**Yn fanwl**
Mae'n annog dysgwyr i adolygu'n feirniadol y ffyrdd mae'r digwyddiadau a'r profiadau hyn yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli.

Gall gwerthfawrogi hunaniaeth, treftadaeth a chynefin, gan gynnwys hanes Cymru a'r Byd, ddylanwadu'n emosiynol ac yn ysbrydol ar ddysgwyr, a bod o gymorth i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn.

Galluogi dysgwyr i nodi beth sy'n gwneud lleoedd a lleoliadau yn wahanol, a datblygu ymwybyddiaeth o'r cydgysylltiadau rhwng bodau dynol a'u hamgylchedd mewn cyd-destunau cyfoes a hanesyddol.

# Rhagymadrodd

Yn OC 43, pan gyrhaeddodd y Rhufeiniaid i'r lle rydyn ni nawr yn ei alw'n Brydain, fe achoson nhw gryn gynnwrf. Yn ogystal â dod â byddin enfawr gyda nhw, fe wnaethon nhw gyflwyno syniadau a ffyrdd newydd o fyw na welwyd mo'u tebyg erioed o'r blaen.

Fe wnaeth y metelau gwerthfawr a'r cyflenwad helaeth o fwyd blasus argraff fawr arnyn nhw – ond wnaeth amodau byw y Brythoniaid a oedd yma ar y pryd ddim cymaint o argraff arnyn nhw! Felly aeth y Rhufeiniaid ati i wneud y wlad ddieithr newydd hon yn debycach i'w hannwyl Rufain.



# Newid ein... tirwedd

Fe wnaeth y Rhufeiniaid godi adeiladau carreg gyda ‘gwres canolog’ cyntaf y byd. Adeiladon nhw amffitheatrau, caerau a lloriau mosaig anhygoel sydd i’w gweld hyd heddiw yng Nghymru.






Amffitheatr Caerllion © Cadw

Fe wnaeth y Rhufeiniaid adeiladu systemau carthffosiaeth a ffyrdd syth hefyd a oedd yn ymestyn ar hyd a lled y wlad er mwyn cysylltu eu trefi Rhufeinig newydd.



Llawr mosaig Rhufeinig – llawr ystafell fwyta mae’n debyg. Darganfuwyd y llawr ym mynwent eglwys Caerllion yn 1865. Mae’n dyddio o’r 1-3edd ganrif OC (Casgliad Amgueddfa Genedlaethol Cymru).

# Gweithgaredd Gwych

Gwnewch fosaig trwy dorri darnau bach o bapur a'u glynu ar ddarn mwy o bapur neu gardbord. Does dim angen siswrn hyd yn oed oherwydd gall y papur fod o unrhyw faint neu siâp! Gallwch hefyd wneud mosaig drwy ddefnyddio rhaglen addas ar gyfrifiadur.

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL
EXPRESSIVE ARTS

## Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

# Caerau a ffyrdd Rhufeinig yng Nghymru


Gallwch weld olion y ffyrdd Rhufeinig hyn hyd heddiw. Sarn Helen yw un o'r rhai enwocaf ond fe fydd arnoch chi angen map Arolwg Ordnans yn hytrach na 'sat nav' i ddod o hyd iddi.

## Ymchwiliwch!

Ceisiwch ddarganfod rhagor am Sarn Helen – ble mae hi a pha mor hir yw hi. Chwiliwch am wybodaeth am y ffordd Rufeinig ger Y Pigwn hefyd, un o'r safleoedd mwyaf adnabyddus yng Nghymru.



Cyn bo hir, roedd y Rhufeiniaid wedi newid cymaint ar y tirwedd nes bod y rhannau hyn o Brydain yn edrych yn debyg iawn i Rufain ond gyda mwy o law!



## Newid ein... bwyd

Daethant ag anifeiliaid gyda nhw nad oedd y Brythoniaid erioed wedi'u gweld o'r blaen, er enghraifft, cwningod i'w bwyta ac i fod yn anifeiliaid anwes egsotig.

Fe wnaeth y Rhufeiniaid gyflwyno llawer o ffrwythau a llysiau blasus nad oedd y Brythoniaid wedi clywed amdanyn nhw cyn hynny. Asbaragws, cennin, pys, garlleg, ffigys, ceirios, eirin a mwy. (Trueni na fydden nhw wedi gadael y maip, y seleri a'r artisiogau ar ôl yn Rhufain!)



# Newid ein... crefydd



Fe wnaethon nhw adeiladu temlau i addoli eu duwiau niferus, Mercurius, Mars, Venus, Jupiter... Ydyn nhw'n swnio'n gyfarwydd? Dyma enwau'r planedau yng nghysawd yr haul erbyn hyn.

Cerfiad carreg laid o Mars, y duw rhyfel Rhufeinig – weithiau'r duw iachau, dyddiedig OC 60-300 o Gaer Rufeinig Segontium.



Roedd rhai o'r duwiau Rhufeinig yn debyg i dduwiau'r Celtiaid. Byddwn ni'n dysgu mwy am hyn yn Uned 3. Yna newidiodd y Rhufeiniaid eu prif grefydd i Gristnogaeth a gwneud y grefydd honno'n boblogaidd yma hefyd.



# Newid ein... hiaith

Doedd dim iaith ‘ysgrifenedig’ ym Mhrydain pan gyrhaeddodd y Rhufeiniaid. Felly fe wnaethon nhw’n siŵr bod y Brythoniaid pwysicaf yn dysgu darllen ac ysgrifennu a siarad yr iaith Rufeinig, sef Lladin.

Hyd yn oed heddiw, mae llawer o eiriau Cymraeg a Saesneg yn dod o’r Lladin.

Mae llawer o enwau lleoedd Rhufeinig ym Mhrydain. Os oes ‘chester,’ ‘caster,’ ‘cester’ neu ‘caer’ mewn enw, mae bron yn sicr yn enw Rhufeinig.

Mae ‘Cambria’ yn dod o’r ffurf Ladin ar enw Cymraeg ein gwlad, ‘Cymru.’



Castell a thref Caernarfon © Croeso Cymru

## Ymchwiliwch!

Ydych chi’n gallu darganfod enwau lleoedd Rhufeinig yng Nghymru? Gwnewch restr!



# Pa mor bell?

Roedd y Rhufeiniaid yn meddwl hefyd y byddai'n syniad da mesur pellteroedd yn gywir. Wel, roedden nhw'n teithio llawer i bob cwr o'r wlad. Felly diolch iddyn nhw, rydyn ni'n mesur pellteroedd mewn milltiroedd, troedfeddi a modfeddi hyd heddiw.



I II III IV
V VI VII VIII
IX X XI XII

# Amser ac Arian

Mae rhifolion Rhufeinig yn dal i gael eu defnyddio heddiw, ar glociau ac ar ddarnau arian er enghraifft. Gwnaethon nhw'n siŵr y gallai'r un darnau arian gael eu defnyddio ar draws yr Ymerodraeth Rufeinig, yn cynnwys ym Mhrydain. Roedden nhw'n creu neu'n 'bathu' y darnau arian hyn yn eu bathdai eu hunain.

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL
EXPRESSIVE ARTS

**Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig**

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

## Gweithgaredd gwych!

Chwiliwch am bethau eraill yn ein bywydau ni heddiw sy'n gysylltiedig â'r Rhufeiniaid. Gwnewch ffilm fer gan gynnwys y pethau 'Rhufeinig' y gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw o'ch cwmpas. Gallai fod yn ddarn pum ceiniog neu genhinen, er enghraifft!

### Ewch am dro!

Beth am i chi wneud ffilm yn dangos sut y gwnaeth y Rhufeiniaid eu marc yn un o'r safleoedd Rhufeinig yng Nghymru. Beth am fynd i Gaerllion, Caernarfon, Caer-went, Caerfyrddin neu Ddolaucothi? Mae gan Cadw ganllaw 'Ffilmio Hanes' sy'n dangos sut i wneud ffilm.

# Pam roedd y Rhufeiniaid eisiau goresgyn Prydain?

Rydyn ni'n gwybod bod y tywydd yn braf yn Rhufain, yr adeiladau'n rhai da a'r gwaith plymio'n fodern, felly pam yn y byd wnaeth y Rhufeiniaid benderfynu dod i geisio goresgyn Cymru?

Doedd pethau ddim yn hawdd yng Nghymru a dweud y lleiaf, gan fod y tirwedd yn fynyddig, yn llawn dyffrynnoedd a'r tywydd yn ddigon garw. Roedd llwythau Celtaidd brodorol yn byw yng Nghymru hefyd a chafodd y Rhufeiniaid fawr o groeso ganddynt. Yn wir, fe gymerodd dros 25 mlynedd i'r Rhufeiniaid feddiannu dim ond rhan o Gymru. Wnaethon nhw erioed goncro'r wlad gyfan.

## Ymchwiliwch!

Defnyddiwch fap rhyngweithiol ardderchog Cadw i ddod o hyd i safle Rhufeinig i ymweld ag ef yng Nghymru a darganfod beth ddigwyddodd yno.



### Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Y DYNIAETHAU
HUMANITIES

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

Bydd dulliau gweithredu disgyblaethol addas, gan gynnwys dyniaethau digidol, yn gymorth i ddysgwyr gasglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth.

# Yr ymdrechion cyntaf i orchfygu Prydain

## Julius Caesar

**Fe ddaeth, fe welodd, fe aeth adref; fe ddaeth yn ôl ac yna fe aeth adref eto!**

Yn 54-55 CC roedd Julius Caesar (Iŵl Cesar yn Gymraeg), y Cadlywydd Rhufeinig enwog, wedi ceisio ac wedi methu â choncro Prydain.

Yn 55 CC fe ddes i i Gymru gyda byddin eithaf bach. Fodd bynnag, roedd y Celtiaid felltith 'na yn rhy gryf ac roedd y tywydd yn rhy oer, felly fe benderfynais adael. Rhoddais gynnig arall arni y flwyddyn ddilynol. Y tro hwnnw roedd gen i fwy o filwyr ac eliffant er mwyn dangos i'r Celtiaid pwy oedd y bos! Ond roedd y tywydd yn dal yn rhy oer a gwlyb a 'mysedd traed i'n rhewi yn fy sandalau! Roedd y Celtiaid yn dal i fod yn ddigroeso, felly... fe es i adre i'r Eidal a wnes i ddim tywyllu'r lle hwnnw fyth wedyn!



Rydyn ni'n gwybod pam y cafodd Caesar ei ddenu i oresgyn Prydain oherwydd fe ysgrifennodd ei resymau dros geisio gwneud hynny mewn llyfr.




# Tri chynnig i ~~Gymro~~ Claudius!

Ond yna, 100 mlynedd yn ddiweddarach, yn OC 43, rhoddodd yr Ymerawdwr Claudius ei big i mewn.

Roedd gan yr Ymerawdwr Claudius ddigon o resymau hefyd. Fel arweinydd newydd, roedd arno eisiau gwneud argraff ar ei bobl. Os oedd yr enwog Iŵl Cesar wedi methu, methu,fe fyddai ef, Claudius, yn llwyddo!



# Mynd am yr Aur



Roedd y Rhufeiniaid eisiau i'w hymerodraeth nhw fod mor bwerus â phosib. Byddai gorchfygu Prydain yn bluen yn eu hetiau. Fe wydden nhw hefyd fod Prydain, ac yn enwedig Cymru, yn wlad gyfoethog oherwydd y metelau gwerthfawr oedd yn barod i gael eu cloddio – tun, copr a haearn. Byddai'r rhain yn hynod ddefnyddiol i'r ymerodraeth Rufeinig. Fe fydden nhw'n gallu tynnu arian allan o blwm er enghraifft, i wneud pob math o bethau.



Trysor enwog Mildenhall - gwaith arian y Rhufeiniaid

Yng Nghymru roedd un o’r metelau mwyaf gwerthfawr oll i’w gael hefyd, sef aur. Oeddech chi’n gwybod bod y Rhufeiniaid wedi bod yn cloddio am aur yn Nolaucothi ym Mhumsaint yn Sir Gaerfyrddin? Dyna’r unig safle ym Mhrydain gyfan lle digwyddodd hynny ac mae modd chwilio am aur yno hyd heddiw!



Gweithfeydd Rhufeinig ym Mwynglawdd Dolaucothi

A wnaeth y Rhufeiniaid gopïo’r Celtiaid a oedd yn enwog am eu gwaith aur a metelau gwerthfawr?



Cadwyn aur Rufeinig cafodd ei darganfod yn Nolau Cothi 1G-2G © Amgueddfa Brydeinig

## Ymchwiliwch!

Sut roedd y Rhufeiniaid a’r Celtiaid yn defnyddio metelau gwerthfawr? Ewch i wefan Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Gwnewch restr o wahaniaethau a thebygrwydd.

GWYDDONIAETH A THECHNOLEG
— SCIENCE & TECHNOLOGY —

**Datganiadau o’r Hyn sy'n Bwysig**

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomena.

# I'r Gad!

Fel y gwelson ni felly, roedd gan y Rhufeiniaid lawer o resymau dros geisio concro Prydain. Roedden nhw'n barod i ymosod ar y llwythau Celtaidd a gwneud beth bynnag oedd angen ei wneud er mwyn cael y maen i'r wal.



# Brwydro yn erbyn y llwythau Celtaidd

Roedd y Rhufeiniaid yn meddwl bod trigolion Prydain yn bobl gyntefig ac anwaraidd. Mae Julius Caesar yn eu galw nhw'n greaduriaid dychrynllyd yn ei lyfr!

Cofiwch, roedd Caesar yn Rhufeinwr ac yn elyn i'r Celtiaid, felly go brin y byddai'n canu eu clodydd!

Roedd y Brythoniaid yn defnyddio lliwlys i liwio'u cyrff yn las, gan ymddangos yn frawychus wrth ymladd mewn brwydr. Roedden nhw'n defnyddio'u cerbydau wrth frwydro, yn eu llywio i bob cyfeiriad a hyrddio eu harfau, gan achosi i'r gelyn wahanu oddi wrth ei gilydd. Yna byddai un o'r rhyfelwyr yn llamu o'r cerbyd ac yn ymladd ar droed.



# Y Celtiaid Rhanedig

Oedd, roedd y Celtiaid yn gallu bod yn frawychus ond roedden nhw hefyd yn grefftwyr hynod fedrus ac yn masnachu ar draws Gogledd Ewrop.

Fodd bynnag, doedden nhw ddim yn unedig; roedd llawer o dylwythau a llwythau yn cweryla o hyd. Roedd o leiaf bum llwyth yn byw yn y rhan o Brydain sy'n cael ei hadnabod fel Cymru heddiw.

## Ymchwiliwch!

Pa lwyth oedd yn byw yn eich rhan chi o Gymru? Pa fath o bobl oedden nhw?



# Y Milwyr Rhufeinig






## O ble ddaeth y milwyr Rhufeinig?

Nid o Rufain yn unig yr oedd y milwyr, neu'r 'Llengfilwyr' fel y'u gelwid, yn dod. Roedden nhw'n dod o bob rhan o'r ymerodraeth Rufeinig i ymladd yn erbyn y Celtiaid. Ar y dechrau, roedden nhw'n dod yn bennaf o'r Eidal (81%) ond erbyn diwedd y ganrif gyntaf, o Ogledd Affrica, y taleithiau Alpaidd ac Awstria Slofenia fodern y deuai'r rhan fwyaf o'r milwyr.

### Ymchwiliwch!

Ewch ar-lein i ddarganfod enwau carfanau'r milwyr Rhufeinig a faint o ddynion oedd ym mhob carfan.

Yn ddiweddarach, roedd ganddyn nhw hefyd filwyr o'r Iseldiroedd, Gwlad Belg a Bwlgaria (fel yr ydyn ni'n eu hadnabod heddiw). Felly roedd gan y fyddin amrywiaeth helaeth o'i mewn. Cafodd hyn effaith ar Gymru wrth gwrs. Byddwn yn dysgu mwy am hynny yn Uned 3.



Yn wahanol i'r Celtiaid, roedd y Rhufeiniaid yn drefnus iawn ac roedd ganddyn nhw gategorïau ar gyfer y carfanau yn eu byddinoedd hyd yn oed. Roedden nhw o ddifrif! Roedd gan fyddin y Rhufeiniaid 450,000 o filwyr ar ei helaethaf.

# Barod i frwydro

Roedd angen i filwyr Rhufeinig fod yn heini ac iach iawn. Roedd disgwyl iddyn nhw orymdeithio tua 36km (24 milltir) mewn 5 awr. Fe fydden nhw'n gwasanaethu am 25 mlynedd ar ôl cael eu recriwtio rhwng eu harddegau hwyr a'u hugeiniau cynnar.


Fel arfer, roedd y milwyr Rhufeinig yn ddynion cryf ac yn dod o gefndir gweithio gyda'r dwylo – gofaint neu gigyddion er enghraifft. Roedd yn rhaid iddyn nhw wneud driliau milwrol ac ymarfer yn ddyddiol.

Roedd deiet y milwyr yn cyfateb i 3,000 o galorïau'r dydd. Mae hynny tua 10 byrgyr caws! Ond roedd yn rhaid bwyta deiet llawn gwenith er mwyn bod yn ddigon cryf a heini i ymladd.

## Ymchwiliwch!

Edrychwch ar faddonau Rhufeinig mwyaf soffistigedig y wlad a darllenwch bopeth am Isca ar wefan Cadw. Fe gawn ni ddysgu rhagor am sut roedd y Rhufeiniaid yn ymlacio a dadflino yn Uned 3.





Baddondai Rhufeinig Caerllion © Croeso Cymru

Roedd yn rhaid i filwyr hyfforddi bob dydd hefyd. Rhedeg, neidio, ymladd cleddyfau a thaflu gwaywffyn. Felly roedd bywyd yn galed i'r milwyr Rhufeinig.

Pan nad oedden nhw'n gaeth i'r barics, roedden nhw allan yn ymladd yn erbyn y Celtiaid cythryblus!

Ond roedden nhw'n cael ychydig o amser i ymlacio fel mae'r baddonau Rhufeinig rhyfeddol yn Isca (neu Gaerllion fel y'i gelwir heddiw) yn dangos. Roedd pwll nofio Caerllion, y 'natatio' enfawr, yn dal mwy na 80,000 galwyn o ddŵr!



Yr amffitheatr yng Nghaerllion © Croeso Cymru

## Gweithgaredd gwych

Rydych chi'n filwr Rhufeinig sydd newydd ymgartrefu yng Nghymru. Ffilmiwch "vlog" gyda ffrind yn disgrifio eich argraffiadau hyd yn hyn a beth rydych chi'n ei wneud o ddydd i ddydd.

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL
EXPRESSIVE ARTS

**Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig**

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

# A oes heddwch... neu ryfel?

Felly, hyd y gwelwn ni, roedd y Rhufeiniaid a'r Celtiaid yn wahanol iawn. Pa syndod fod hynny wedi arwain at frwydrau gwaedlyd iawn rhyngddyn nhw felly?

Yn OC 43, dan orchymyn yr Ymerawdwr Claudius, glaniodd byddin Rufeinig fawr ar y traethau yn yr ardal sy'n cael ei galw heddiw yn 'Caint' (Kent) yn Lloegr.



Dros y flwyddyn ddilynol buon nhw'n brwydro at ganol y tir, gan hyrddio trwy fryngaerau a choncro unrhyw un oedd yn meiddio mynd yn eu herbyn.

Fe wnaeth rhai o'r Celtiaid blygu i'r Rhufeiniaid yn heddychlon. Fe gytunon nhw i ufuddhau i gyfreithiau Rhufeinig a thalu trethi. Yn gyfnewid am hynny, roedden nhw'n cael cadw'u teyrnasoedd. Fodd bynnag, fe wnaeth rhai o'r arweinwyr Celtaidd benderfynu ymladd.



# Dewisa dy chwaraewr

## Caradog (Caratacus)



Byw – yn y ganrif gyntaf OC.

Mab i frenin y Catuvellauni o Essex.

Wedi dianc o frwydr Medway yn erbyn y Rhufeiniaid.

Dod i Gymru i berswadio llwyth y Silwriaid i ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid.

Cael ei orchfygu gan y Rhufeiniaid ym Mrwydr Caer Caradog yn OC 50.

Pam ydych chi, y Rhufeiniaid, gyda'ch holl eiddo goludog, eisiau meddiannu ein cytiau tlodaidd ni?

Fe wnaeth Caradog ymladd yn ddewr yn erbyn y Rhufeiniaid. Roedd yn arwr mawr yng ngolwg y Brythoniaid ond cafodd ei fradychu gan Cartamandua, brenhines llwyth y Brigantes. Yna, cafodd y rhyfelwr Celtaidd balch ei gludo mewn cadwyni i Rufain.

Fodd bynnag, daeth Caradog yn ffrindiau â phwysigion Rhufain yn fuan iawn. Roedd yn siaradwr gwych a gwnaeth araith drawiadol cyn cael pardwn gan yr Ymerawdwr Claudius ei hun!

### Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

## Ymchwiliwch!

Chwiliwch am ragor o wybodaeth am frwydr Caer Caradog. Ydych chi'n meddwl bod Caradog wedi gwneud y peth iawn yn ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid? Fyddech chi wedi ildio i'r Rhufeiniaid er mwyn cael bywyd tawel?

Y DYNIAETHAU
HUMANITIES

# Brwydrau Buddug

Ar ôl blynyddoedd o drethi uchel a cholli tir i'r Rhufeiniaid, roedd rhai llwythau Celtaidd yn ysu am gael dial.

## Dewisa dy chwaraewr

**Y Frenhines Buddug (Boudicca)**



- Byw yn y ganrif gyntaf OC.
- Brenhines llwyth yr Iceni.
- Wedi ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid yn 60 AD.
- Wedi codi byddin enfawr a llosgi trefi Rhufeinig Caercolyn (Colchester) a Llundain.
- Pan glywodd y fyddin Rufeinig am hyn, dyma nhw'n troi'n ôl o Gymru i'w hwynebu.

# Dewisa dy frwydr


Yn OC 60, un o'r arweinwyr Celtaidd a ddewisodd ymladd oedd y Frenhines Buddug (Boudicca) - fel y gair 'buddugol'. Roedd hi'n perthyn i lwyth yr Iceni yn yr ardal sy'n cael ei galw'n Norfolk heddiw. Penderfynodd Buddug arwain ei llwyth yn erbyn y Rhufeiniaid.




Roedd gan Buddug reswm da dros gwyno. Rhoddodd yr ymerawdwr Nero orchymyn i'w chwipio hi o flaen ei phobl. Roedd Nero wedi mynnu eu bod nhw'n talu trethi ar diroedd oedd yn perthyn i'r Celtiaid. Roedd hi'n barod i frwydro ac roedd ganddi'r bersonoliaeth gref sydd ei hangen i arwain ei phobl hefyd.

# Tacitus yn adrodd yr hanes

Disgrifiodd Tacitus, yr hanesydd Rhufeinig enwog, Buddug yn areithio'n ysbrydoledig i'w byddin:



> "Rydyn ni, Frythoniaid, wedi arfer â merched sy'n gadlywyddion rhyfel. Dwi'n dod o deulu o ddynion cadarn! Ond dwi ddim yn ymladd am fy nheyrnas a'm cyfoeth yn awr. Rwy'n ymladd fel unigolyn cyffredin dros fy rhyddid colledig. Dyna fy mwriad i fel menyw! Gadewch i'r dynion fyw fel caethweision os mai dyna'u dymuniad!"

# Beth ddigwyddodd wedyn?

Aeth Buddug ati i godi byddin enfawr o 200,000 o ryfelwyr – yn ddynion a merched. Dinistriwyd prifddinas y Brydain Rufeinig ganddyn nhw, sef Caercolyn (Colchester) ar y pryd, a chafodd y Nawfed Lleng Rufeinig ei gorchfygu. Yna fe wnaethon nhw'r un peth yn Llundain a lladdwyd miloedd ar y ddwy ochr.




Cerflun Buddug, Pont San Steffan, Llundain

Wedyn fe deithiodd byddin Buddug i'r gogledd, i Verulamium (St Albans yn Lloegr heddiw).

Pan glywodd y fyddin Rufeinig am hyn, dyma nhw'n gadael yr ymgyrch yng ngogledd Cymru er mwyn wynebu Buddug. Er bod ei byddin hi yn fwy niferus, roedd y Rhufeiniaid wedi'u hyfforddi'n well ac roedd ganddyn nhw well arfau ac arfwisgoedd.

Ymladdodd y ddwy ochr frwydr ffyrnig ond y Rhufeiniaid a enillodd. Does neb yn gwybod beth ddigwyddodd i Buddug ar ôl hynny. Lladdwyd llawer o Frythoniaid a chredir iddi hi wenwyno ei hun er mwyn osgoi cael ei dal. Dydyn ni ddim yn gwybod ble digwyddodd y frwydr na ble bu farw Buddug ond mae hi'n parhau i fod yn arwres Geltaidd hyd heddiw.



Llosgi Caercolyn (Colchester)

Y DYNIAETHAU
HUMANITIES

**Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl. O ganlyniad, daw dysgwyr i ddeall y gall y dewisiadau y mae pob un ohonon ni'n eu gwneud gael effaith sylweddol ar gymdeithas, boed yn ddewisiadau unigol neu ar y cyd.

# Gweithgaredd Gwych 1

Dychmygwch fod eich dosbarth yn llwyth Celtaidd sy'n byw yng Nghymru yn ystod teyrnasiad yr Ymerawdwr Claudius. Nawr mae'n bryd penderfynu beth i'w wneud pan fydd y Rhufeiniaid yn heidio i'r wlad – rhyfela neu gyd-fyw yn heddychlon?



Gwnewch linell ar y llawr.

Mae'n rhaid i bawb yn y dosbarth ddewis sefyll ar un ochr y llinell neu'r llall.

Ar un ochr bydd pawb sy'n meddwl bod ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid yn syniad da.

Ar yr ochr arall bydd pawb sy'n meddwl y dylai eich llwyth ddysgu byw gyda'r Rhufeiniaid.

Mae'n rhaid i chi roi rhesymau dros eich penderfyniad a defnyddio tystiolaeth o'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu am y Rhufeiniaid a'r Celtiaid. Fe gewch chi newid eich meddwl ar unrhyw adeg.

Beth benderfynodd eich llwyth chi ei wneud yn y diwedd?

# Gweithgaredd Gwych 2

Dewch o hyd i wahanol ddelweddau o Buddug. Trafodwch a oedd hi'n arwr neu'n ddihiryn. Pa argraff mae'r gwahanol ddelweddau hyn yn eu rhoi ohoni hi? Lluniwch linell amser o ddigwyddiadau ei gwrthryfel. Gallwch gynhyrchu poster yn mynegi eich barn am Buddug.

# Brwydr fythgofiadwy Môn

Erbyn OC 50 roedd y rhan fwyaf o'r lle rydyn ni'n ei adnabod heddiw fel De Lloegr wedi'i oresgyn gan y Rhufeiniaid. Ond er eu holl fedrusrwydd ar faes y gad, doedd y Rhufeiniaid ddim yn cael eu ffordd eu hunain bob tro, fel y dangosodd brwydrau Caradog a Buddug i ni. Fe wnaeth llwythau'r Silwriaid, yr Ordoficiaid a'r Demetae frwydro i'w cadw nhw draw hefyd.

Felly tua OC 60-61, penderfynodd y cadfridog Rhufeinig, Suetonius Paulinus, mai digon oedd digon. Penderfynodd dargedu Ynys Môn, neu 'Mona' fel yr oedd yn cael ei galw bryd hynny. Roedd hon yn ganolfan bwysig i'r Derwyddon Celtaidd.

Dyma'r cyntaf o ddau ymosodiad ar yr ynys. Roedd ymosodiad cyntaf Paulinus yn llwyddiannus. Ond wrth iddo ddechrau gosod garsiwn yn yr ynys, bu'n rhaid iddo gefnu ar hyn ac arwain y llengoedd i ddelio â gwrthryfel Buddug.

Y Cadfridog Agricola arweiniodd ail ymosodiad y Rhufeiniaid ar Ynys Môn yn OC 77 a gorffenodd waith Paulinus yno.



# Pam Ynys Môn?


Hyd heddiw, mae Ynys Môn yn cael ei galw yn 'Môn Mam Cymru'. Oherwydd ei thywydd mwyn a'i phridd da, roedd 'Mona' yn gallu cynhyrchu llawer o fwyd i'w phobl. Roedd yna lawer o gopr gerllaw ym Mynydd Parys, (ger ardal Amlwch), oedd yn ddeniadol iawn i'r Rhufeiniaid.

Yn ôl yr hanesydd Rhufeinig, Tacitus, gwnaeth y milwyr neu'r llengfilwyr Rhufeinig, synnu'r Derwyddon drwy nofio ar draws y Fenai. Gwnaethon nhw hefyd ddefnyddio cychod bach i gyrraedd yr ynys.

Daeth y Celtiaid a'u hoffeiriaid at ei gilydd ar y glannau gyferbyn, yn barod i ymladd.



Culfor Menai
© Croeso Cymru



Ar y traeth roedd tyrfa enfawr o Frythoniaid – dynion a merched. Roedd ganddyn nhw wallt du, blêr ac roedden nhw'n chwifio ffaglau tân yn yr awyr. Cododd eu Derwyddon eu dwylo i'r awyr, gan lafarganu wrth wneud hynny. Cafodd y milwyr Rhufeinig gymaint o fraw o weld yr olygfa hon fel na allen nhw symud llaw na throed ar y dechrau! Roedden nhw wedi rhewi fel delwau. Felly roedden nhw'n darged hawdd i'r Brythoniaid a ymosododd arnyn nhw'n ddigon gwaedlyd.

Ond gwnaeth y Rhufeiniaid ymladd yn ôl yn ffyrnig. Roedd ganddyn nhw arfau gwell a byddin oedd yn fwy a llwyddon nhw i ennill y frwydr. Yna aethon nhw ati i ddinistirio pob allor lle'r oedd y Derwyddon yn addoli eu duwiau...

Wrth gwrs, Rhufeiniwr oedd Tacitus felly go brin y byddai wedi ysgrifennu pethau da am y Brythoniaid! Doedd y Brythoniaid ddim yn ysgrifennu bryd hynny hyd y gwyddon ni, felly allwn ni ddim gwybod eu hochr nhw o'r stori.

## Beth ydy dy farn di?

Ddylen ni gredu popeth mae'r Rhufeiniaid yn ei ddweud am y Celtiaid?

Pam wyt ti'n dweud hyn?

### Datganiad o'r hyn sy'n bwysig

Y DYNIAETHAU
HUMANITIES

Mae'r dyniaethau yn annog dysgwyr i adolygu'n feirniadol y ffyrdd mae'r digwyddiadau a'r profiadau hyn yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli. Wrth iddyn nhw ddatblygu eu safbwyntiau gwybodus eu hunain, ynghyd â chydnabod barn eraill, gall dysgwyr hefyd ddatblygu hunanymwybyddiaeth.



# Y Derwyddon

## Ymchwiliwch!

Pwy oedd y Derwyddon? Pam oedd gan y Rhufeiniaid gymaint o'u hofn nhw? Pam wnaeth y Rhufeiniaid chwalu eu hallorau nhw?

## Gweithgaredd gwych

Beth am i chi greu golygfa sy'n adrodd yr hanes drwy ddefnyddio'r ap Puppet Pals er mwyn ail-greu brwydr Ynys Môn? Gall eich golygfa ddangos dwy ochr y stori: milwr Rhufeinig yn disgrifio sut roedd y Rhufeiniaid yn teimlo pan welon nhw'r Brythoniaid am y tro cyntaf, a Brython yn disgrifio'r Rhufeiniaid wrth iddyn nhw frwydro.

# Stori Segontium

Gwnaeth y Rhufeiniaid fynd ati i adeiladu caer bwysig iawn, Segontium, yn y dref rydyn ni'n ei hadnabod heddiw fel Caernarfon. Gwnaethon nhw reoli Ynys Môn o'r Gaer honno am 300 mlynedd. Cafodd ei hadeiladu ar ben bryn crwn, eang, gyda golygfa dros y Fenai ac Ynys Môn. Roedd lleoliad y gaer yn gymorth i'r Rhufeiniaid weld gelynion yn agosáu.

Cafodd y gaer ei galw'n Segontium oherwydd yr afon gyfagos: 'sego-' sy'n golygu 'egnïol' neu 'yn llawn cryfder'. Mae'r elfen hon yn dal yn ffurf fodern enw'r afon, sef 'Seiont'.

**Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

Y DYNIAETHAU
HUMANITIES

## Ymchwiliwch!

Chwiliwch am ragor o wybodaeth am gaer Segontium a'i phwysigrwydd. Pwy oedd y bobl fu'n byw yno am 300 mlynedd?




Golygfa o'r awyr o Segontium yn ein dyddiau ni © Cadw

Diolch i ddarnau arian a gafodd eu darganfod yno, rydyn ni'n gwybod bod y Rhufeiniaid wedi aros tan tua OC 394. Yn wir, chafodd yr un gaer arall yng Nghymru ei chadw cyhyd.

Roedd Segontium yn rheoli mynediad i diroedd cyfoethog Ynys Môn a hefyd yn gymorth i amddiffyn arfordir Cymru rhag môr-ladron Gwyddelig! Fe gawn ni ddarganfod mwy am hanes gwefreiddiol Môr-ladron Iwerddon a Segontium yn Unedau 3 a 4.

Gallwch ymweld â safle Segontium heddiw. Darllenwch ragor am y gaer ar [wefan Cadw](#).



Sut y gallai Segontium fod wedi edrych yn y cyfnod Rhufeinig (© J Banbury)

## Gweithgareddau ychwanegol

Mae'r Rhufeiniaid yn ymddangos yn y Mabinogi hefyd, sef ein hen chwedlau Cymraeg enwog. Darllenwch chwedl Magnus Maximus, neu Macsen Wledig fel mae'n cael ei adnabod yn Gymraeg. Cymharwch yr hyn sy'n cael ei alw'n ffaith am Magnus a'r hyn sydd wedi dod yn fyth neu'n chwedl am Macsen yn y Mabinogi.

**Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU
LANGUAGES, LITERACY & COMMUNICATION

Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth trwy ddod ar draws syniadau mewn iaith a llenyddiaeth.

# Darganfod rhagor!

Dyma rai adnoddau ychwanegol y gallwch chi eu defnyddio i ddysgu mwy am y Rhufeiniaid yng Nghymru. Nodwch nad yw Cadw yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.

- Mynnwch gip ar wefan Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru am ragor o wybodaeth am yr arteffactau Rhufeinig (pethau hanesyddol) cafodd eu darganfod yng Nghaerllion.

- Gwyliwch y fideo gwych hwn gan Cadw sy'n dangos caer Rufeinig Segontium yn codi o'r adfeilion, diolch i ddelweddau wedi'u cynhyrchu â chyfrifiadur (CGI).

- Gwyliwch y fideo hwn ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru. Mae'n dangos sut y newidiodd y Goresgyniad Rhufeinig fywyd yng Nghymru.

- Mae animeiddiad fideo Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 'Olion Rhufeinig' yn adrodd hanes dylanwad y Rhufeiniaid ar Gymru.

- Mae BBC Bitesize yn archwilio sut y newidiwyd Prydain ar ôl dyfodiad y Rhufeiniaid. Gwyliwch y fideo wedi'i animeiddio hwn.

- Mae'r fideo hwn o BBC Bitesize yn archwilio hanes y Rhufeiniaid yng Nghymru yn Gymraeg.

- Mae BBC Bitesize yn cyflwyno stori Buddug gydag animeiddiad o'i brwydr yn erbyn y Rhufeiniaid.